Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cynllluniau Grant Creu Coetir

Canllaw i'r arian sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer creu coetiroedd yng Nghymru





**Am ragor o wybodaeth am Grantiau Creu Coetir Llywodraeth Cymru, ewch i:**
**www.llyw.cymru/grantiau-coedwigaeth**

E-bost: polisicoedwigaeth.forestrypolicy@gov.wales
Grantiau Creu Coetir, Polisi Adnoddau Coedwigaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Os hoffech gopi print bras, Braille neu mewn iaith arall o'r ddogfen hon, holwch.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52375
ISBN argraffu 978-1-80633-173-4, ISBN digidol 978-1-80633-174-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cyflwyniad

Mae’r llyfryn hwn yn cynnwys y cyfraddau ac yn disgrifio’r grantiau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i ffermwyr, perchenogion tir eraill a rheolwyr tir yng Nghymru ar gyfer creu coetiroedd.

Dyma’r cynlluniau creu coetir:

- **Cynllun Grantiau Bach — Creu Coetir** ar gyfer cymorth i blannu coed ar ddarnau o dir hyd at 2 hectar o faint;
- **Cynllun Cynllunio Creu Coetir** i helpu i dalu cynlluniwr coetir cofrestredig i ddatblygu plan creu coetir;
- **Grant Creu Coetir** ar gyfer cynlluniau mwy a’r rheini nad ydynt yn addas ar gyfer y cynllun Grantiau Bach.

Bydd plannu coed a choetiroedd nawr yn ein helpu i greu Cymru fydd yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, sy’n gyfoethog o ran planhigion ac anifeiliaid ac sy’n helpu i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy gan gynnal swyddi gwyrdd ac economi wledig gref.

Mae’r llyfryn hwn yn crynhoi’r tri chynllun ond os hoffech wybodaeth fanylach a mwy technegol, ewch ar-lein i **www.llyw.cymru/grantiau-coedwigaeth**

# Manteision Creu Coetir

Gall coetiroedd cymysg sy'n cael eu rheoli'n dda a'u tyfu mewn ffordd gynaliadwy gynnig pob math o fanteision economaidd ac amgylcheddol, boed hynny ar safle masnachol mawr neu ar fferm fach, gan gynnal busnesau fferm gwydn ac amrywiol.

Incwm o werthu pren adeiladu

Cysgod i dda byw mewn tywydd oer a gwlyb a rhag gwres yr haf

Cyfrannu at leihau'ch ôl troed carbon

Gwella ansawdd aer a dŵr

Lleihau'r perygl o lifogydd


Gwella bioamrywiaeth

Cryfhau glennydd afonydd

Helpu i daclo'r argyfwng hinsawdd

Gwella bioddiogelwch ffermydd

# Pa gynllun sy'n addas i chi?



# Y Cynllun Grantiau Bach — Creu Coetir

Mae'r cynllun hwn yn cefnogi ffermwyr, perchnogion tir eraill a rheolwyr tir i blannu hyd at 2 hectar o goed ar dir sydd:

- ✓ wedi'i wella'n amgylcheddol, neu
- ✓ sy'n isel ei werth amgylcheddol

Mae tir o'r fath yn cael ei nodi fel tir sensitifedd isel ar y Map Cyfleoedd Coetir. Edrychwch ar y map Grantiau Bach — Creu Coetir i weld a ydych yn gymwys o dan y cynllun hwn.
**www.mapdata.llyw.cymru/maps/small-grants-woodland-creation/**

### Y prif nodweddion:

- Ni fyddwch yn colli'ch Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS)
- Proses ymgeisio ar-lein syml
- Ffensio ar gyfradd o £8.32/m
- 12 mlynedd o daliadau cynnal a chadw a phremiwm
- Paratoi Cynigion Creu Coetir at safonau Safon Coedwigaeth y DU (UKFS), wedi'u cynhyrchu gan system ar-lein Taliadau Gwledig Cymru (RPW)
- Canllawiau technegol i'ch helpu i ddeall pa goed i'w plannu a ble

### Bydd y Grant yn talu am y canlynol:

- Plannu'r coed
- Ffensys a gatiau, yn cynnwys ffensys ceirw
- Costau sefydlu'r coed a chynnal a chadw
- Costau cynnal a chadw am 12 mlynedd , gan ddechrau'n ddwys, i wneud yn siŵr bod y coed yn cydio
- Premiwm am 12 mlynedd i'ch digolledu am yr incwm rydych wedi'i golli

Gallech blannu coed ar gyfer: ✓ Cysgodi ✓ Ar hyd cyrsiau dŵr
✓ Yng nghorneli caeau/mewn caeau bach
✓ Mannau cysgodi stoc
✓ Bioamrywiaeth ✓ Tanwydd

Bydd cyfnodau ymgeisio drwy gydol y flwyddyn.
Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.llyw.cymru/grantiau-bach-creu-coetir
Er mwyn cael cyngor ar sut i wneud cais cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW ar 0300 062 5004.

## Cyfraddau talu Grantiau Bach — Creu Coetir

| **Categori'r coetir** | **Coed/Ha** | **Taliad/Ha** |
|---|---|---|
| Coetir Gwlyb a Glan Nant | 1100 | £3,302 |
| Arfordirol | 800 | £4,000 |
| Ffrwythau a chnau | 800 | £4,000 |
| Brodorol — Bioamrywiaeth | 1100 | £3,302 |
| Coetir Gwlyb a Glan Nant | 1600 | £4,550 |
| Brodorol — Bioamrywiaeth | 1600 | £4,550 |
| Cynhyrchiol (tanwydd coed a choed cysgodi) | 2500 | £5,146 |
| Y Wiwer Goch | 1600 | £4,550 |
| Y Wiwer Goch | 2500 | £5,146 |
| Coed Cysgodol Brodorol | 2500 | £6,170 |

| **Gwaith Cyfalaf Ychwanegol** | **Taliad** |
|---|---|
| Gât Safonol (metel) | £221 |
| Gât Safonol (pren meddal) | £291.75 |
| Gât Safonol (pren caled) | £669.41 |
| Ffensys Stoc | £8.32/m |
| Ffensys Ceirw | £11.93/m |
| Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren | £220.83 yr un |
| Cilbyst a Gât Mochyn o Bren | £237.80 yr un |

**Taliad Premiwm Blynyddol am 12 Mlynedd**
£350/ha

**£300 ar gael ar gyfer cyngor**

**Taliadau cynnal a chadw/Ha**

| **Bl1** | **Bl2** | **Bl3** | **Bl4** | **Bl5** | **Bl6** | **Bl7** | **Bl8** | **Bl9** | **Bl10** | **Bl11** | **Bl12** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £400 | £300 | £250 | £70 | £70 | £70 | £70 | £70 | £70 | £70 | £70 | £70 |

# Cynllun Cynllunio Creu Coetir

Mae'r cynllun hwn yn rhoi cymorth ariannol er mwyn cael cyngor proffesiynol gan Gynlluniwr Coetir Cofrestredig i ddatblygu plan creu coetir ar gyfer arwynebedd o 0.25 hectar o leiaf. Os yw'r arwynebedd yn llai na 2 hectar o ran maint, mae'n bosibl y gallech ymgeisio am y cynllun Grantiau Bach — Creu Coetir yn lle hynny.

**Mae'r cynllun yn cynnig grantiau o rhwng £1,000 a £5,000 ar gyfer:**

- Datblygu plan creu coetir at Safon Goedwigaeth y DU (UKFS). Bydd gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ei gymeradwyo a bydd yn gymwys am 5 mlynedd
- Cyngor proffesiynol Cynlluniwr Coetir Cofrestredig
- 80% o gost arolwg, er enghraifft, arolygon adar a chynefinoedd blaenoriaeth

**Bydd Plan Creu Coetir yn:**

- Gwireddu'ch amcanion ar gyfer y tir rydych chi'n ei blannu
- Eich helpu i greu coetir sydd wedi'i ddylunio'n dda
- Cynnig proses syml os oes angen Asesu'r Effaith Amgylcheddol (EIA)
- Eich galluogi i wneud cais am grantiau fel y Grant Creu Coetir a'r Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG)

Gallwch wneud cais unrhyw bryd yn y flwyddyn.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: **www.llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir**

Mae CNC yn cynnig gwasanaeth cyn ymgeisio i drafod cynnig creu coetir cyn cyflwyno cais i sicrhau bod y safle'n briodol ar gyfer plannu coed.
E-bost: **GwirioCynllunCoetir@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

# Gall cynlluniwr coetir eich helpu i wireddu’ch amcanion



# Grant Creu Coetir

Ar gyfer ffermwyr, perchenogion tir a rheolwyr tir sydd am greu coetir mwy neu sydd ddim yn cael gwneud cais am y Cynllun Grantiau Bach — Creu Coetir, dyma'r grant ar eich cyfer chi.

**Y prif nodweddion:**

7 categori o goetir, gan gynnwys opsiwn o 1,100 o goed/ha er lles bioamrywiaeth frodorol

Ni fyddwch yn colli'ch Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS)

Ffensys da byw ar gyfradd o £8.32/m

Taliadau cynnal a chadw a phremiwm am 12 mlynedd

**Mae'r grant yn talu am y canlynol:**

Plannu coed

Costau sefydlu'r coed

Ffensys da byw a cheirw a gatiau

Costau cynnal a chadw am 12 mlynedd sy'n dechrau'n ddwys i wneud yn siŵr bod y coed yn cydio

Premiwm am 12 mlynedd i'ch digolledu am yr incwm rydych wedi'i golli.

**Cyn gwneud cais am y Grant Creu Coetir, rhaid bod gennych blan ar gyfer creu coetir a bod y plan hwnnw wedi'i gymeradwyo, drwy'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir, sy'n cydymffurfio â Safon Goedwigaeth y DU (UKFS).** Bydd y broses ymgeisio wedyn yn gofyn ichi ddewis y darnau o dir yn eich plan rydych am blannu coed arnyn nhw. Rhaid plannu coed ar o leiaf 0.25 hectar ond gallwch ei rannu'n flociau unigol o 0.01 hectar.

Bydd ffenestri ymgeisio ar gael trwy'r flwyddyn. Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.llyw.cymru/grant-creu-coetir

### Cyfraddau talu'r Grant Creu Coetir

| Categori'r Coetir | Coed/Ha | Taliad/Ha |
|---|---|---|
| Amaeth-goedwigaeth Iseldir (coed gwasgaredig) | 50 | £2,000 |
| Amaeth-goedwigaeth Ucheldir (coed gwasgaredig) | 80 | £2,500 |
| Ffrwythau a Chnau | 800 | £4,000 |
| Brodorol — Bioamrywiaeth | 1100 | £3,302 |
| Brodorol — Bioamrywiaeth | 1600 | £4,550 |
| Cymysgedd Gwell | 2500 | £5,146 |
| Brodorol — Carbon | 2500 | £6,170 |

| Gwaith Cyfalaf | Taliad |
|---|---|
| Ffensys stoc | £8.32/m |
| Ffensys ceirw | £11.93/m |
| Gât Safonol (Metel) | £221.00 yr un |
| Gât Safonol (Pren Meddal) | £291.75 yr un |
| Gât Safonol (Pren Caled) | £669.41 yr un |
| Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren | £220.83 yr un |
| Cilbyst a Gât Mochyn o Bren | £237.80 yr un |

**Taliadau cynnal a chadw/Ha***

| Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Bl7 | Bl8 | Bl9 | Bl10 | Bl11 | Bl12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £400 | £300 | £250 | £70 | £70 | £70 | £70 | £70 | £70 | £70 | £70 | £70 |

* Taliadau i'r Categori amaeth-goedwigaeth yn £70/ha/fl am 12 mlynedd.

| Taliad Premiwm Blynyddol am 12 Mlynedd** | £350/ha |
|---|---|

** Nid yw hyn yn berthnasol i'r opsiwn amaeth-goedwigaeth gan nad yw'n gymwys ar gyfer Taliad Premiwm.

# Enghreifftiau Ariannu'r Grant

## Plannu coetir pren tanwydd 1.5 hectar

| | |
|---|---|
| **Gwaith Plannu** | **£7,719** |
| **Cynnal a Chadw am 12 Mlynedd** (taliad cynnal a chadw blynyddol amrywiol sy'n pwyso tuag at y 3 blynedd gyntaf) | **£2,370** |
| **Taliadau Premiwm am 12 Mlynedd** (taliad blynyddol: £525) | **£6,300** |
| **Ffensio Stoc** (500m) | **£4,160** |
| **Cyfanswm y Grant a Delir** (dros 12 mlynedd) | **£20,549** |

(arian cynllun Grantiau Bach — Creu Coetir)

## Plannu coetir carbon brodorol 5 hectar

| | |
|---|---|
| **Plan Creu Coetir** | **£1,000** |
| **Gwaith Plannu** | **£30,850** |
| **Cynnal a Chadw am 12 Mlynedd** (taliad cynnal a chadw blynyddol amrywiol sy'n pwyso tuag at y 3 blynedd gyntaf) | **£7,900** |
| **Taliadau Premiwm am 12 Mlynedd** (taliad blynyddol: £1,750) | **£21,000** |
| **Ffensio Stoc** (900m) | **£7,488** |
| **3 Gât Fetel** | **£663** |
| **Cyfanswm y Grant a Delir** (dros 12 mlynedd) | **£68,901** |

(arian y cynllun Cynllunio Creu Coetir a'r cynllun Grant Creu Coetir)

## Plannu coetir cymysg gwell 10 hectar

| | |
|---|---|
| **Plan Creu Coetir** (gan gynnwys arolwg) | **£2,500** |
| **Gwaith Plannu** | **£51,460** |
| **Cynnal a Chadw am 12 Mlynedd** (taliad cynnal a chadw blynyddol amrywiol sy'n pwyso tuag at y 3 blynedd gyntaf) | **£15,800** |
| **Taliadau Premiwm am 12 Mlynedd** (taliad blynyddol: £3,500) | **£42,000** |
| **Ffensio Stoc** (1,3200m) | **£10,816** |
| **4 Gât Fetel** | **£884** |
| **Cyfanswm y Grant a Delir** (dros 12 mlynedd) | **£123,460** |

(arian o'r cynllun Cynllunio Creu Coetir a'r Grant Creu Coetir)